OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2829 (Cy.302)

# DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU
# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD, CYMRU

## Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Tachwedd 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Rhagfyr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 38(8) a 39(12) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad yn unol ag adrannau 38(9)(b) a 39(13)(b) o'r Ddeddf honno.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011; mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2011.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr “Deddf 1991” (“*the 1991 Act*”) yw Deddf Adnoddau Dŵr 1991(**2**); a

(b) ystyr “Deddf 2010” (“*the 2010 Act*”) yw Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

### Cymhwyso'r darpariaethau prynu gorfodol i adran 38 o Ddeddf 2010

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), mae adran 154 o Ddeddf 1991(**3**) yn gymwys at ddibenion adran 38 o Ddeddf 2010 fel petai'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 154(1) o Ddeddf 1991 yn cynnwys swyddogaethau o dan adran 38 o Ddeddf 2010.

(**1**) 2010 p.29; mae'r pŵer yn cael ei roi gan adrannau 38(8) a 39(12) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i “the Minister”, ac mae adrannau 38(10) a 39(14) o'r Ddeddf honno yn diffinio “the Minister” at ddibenion yr adrannau hyn.

(**2**) 1991 p.57.

(**3**) Mae adran 154 wedi ei diwygio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 120 ac Atodlen 22, paragraffau 128 a 157. Rhoddwyd y swyddogaethau i'r Gweinidogion, sydd wedi eu diffinio yn adran 222(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 fel

(2) Mae adran 157 o Ddeddf 1991(**4**) yn gymwys at ddibenion adran 38 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod adran 157(2)(b) wedi ei hepgor;

(b) bod y cyfeiriad yn adran 157(6)(a) at orchymyn o dan adran 168 wedi ei hepgor; a

(c) bod adran 157(6)(c) i (e) wedi ei hepgor.

(3) Ni chaiff awdurdodiad ei roi i Asiantaeth yr Amgylchedd o dan adran 154 o Ddeddf 1991, fel y'i cymhwysir gan baragraff (1), ond at y dibenion o alluogi'r Deyrnas Unedig i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y canlynol—

(a) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd mewn perthynas ag unrhyw gamau a mesurau o dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb honno neu bolisïau o dan Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb honno;

(b) y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn perthynas ag unrhyw amcanion amgylcheddol; neu

(c) y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt mewn perthynas ag unrhyw gamau a mesurau o dan Erthyglau 2, 3 neu 4 o'r Gyfarwyddeb honno.

(4) Yn yr erthygl hon—

(a) mae i "amcanion amgylcheddol" yr un ystyr ag "environmental objectives" yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;

(b) ystyr "y Gyfarwyddeb Cynefinoedd" ("*the Habitats Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt(**5**);

(c) ystyr "y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr" ("*the Water Framework Directive*") yw Cyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu ym maes polisi dŵr(**6**); a

(ch) ystyr "y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt" ("*the Wild Birds Directive*") yw Cyfarwyddeb 2009/147/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gadwraeth adar gwyllt(**7**).

## Cymhwyso'r darpariaethau prynu gorfodol i adran 39 o Ddeddf 2010

**4.**—(1) Mae adran 154 o Ddeddf 1991 yn gymwys at ddibenion adran 39 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod y geiriau "A local authority" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "The Agency" lle y maent yn ymddangos am y tro cyntaf yn adran 154(1);

(b) bod y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 154(1) yn cynnwys swyddogaethau o dan adran 39 o Ddeddf 2010;

(c) bod y geiriau "the local authority" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "the Agency"—

(i) yn y man lle y maent yn ymddangos am yr eildro yn adran 154(1);

yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny, bellach, yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) Mae adran 157 wedi ei diwygio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, adran 120 ac Atodlen 22, paragraffau 128 a 159. Rhoddwyd y swyddogaethau i'r Gweinidogion, sydd wedi eu diffinio yn adran 222(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 fel yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny, bellach, yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**5**) OJ Rhif L 206, 22.7.1992, t.7, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/105/EC (OJ Rhif L 363, 20.12.2006, t.368).

(**6**) OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2009/31/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar storio daearegol carbon deuocsid (OJ Rhif L 140, 5.6.2009, t.114).

(**7**) OJ Rhif L 20, 26.1.2010, t.7.

(ii) yn y man lle y maent yn ymddangos yn adran 154(2), (3) a (4); a

(iii) yn y man lle y maent yn ymddangos am yr ail a'r trydydd tro yn adran 154(6); ac

(ch) mae i "local authority" yr ystyr a roddir iddo yn adran 39(6) o Ddeddf 2010.

(2) Mae adran 157 o Ddeddf 1991 yn gymwys at ddibenion adran 39 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod y geiriau "A local authority" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "The Agency" lle y maent yn ymddangos yn adran 157(1);

(b) bod y geiriau "the local authority" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "the Agency" lle y maent yn ymddangos yn adran 157(2)(a) a (6);

(c) bod adran 157(2)(b) wedi ei hepgor;

(ch) bod y cyfeiriad yn adran 157(6)(a) at orchymyn o dan adran 168 wedi ei hepgor;

(d) bod adran 157(6)(c) i (e) wedi ei hepgor; ac

(dd) bod i "local authority" yr ystyr a roddir iddo yn 39(6) o Ddeddf 2010.

**Cymhwyso'r darpariaethau pŵer mynediad i adran 38 o Ddeddf 2010**

**5.**—(1) Mae adran 170 o Ddeddf 1991(**8**) yn gymwys at ddibenion adran 38 o Ddeddf 2010 fel petai'r cyfeiriad yn is-adran (4) at unrhyw bŵer a roddwyd gan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau yn adrannau 159, 160, 162(2) a (3) a 163 o Ddeddf 1991 yn gyfeiriad at unrhyw bŵer a roddwyd gan adran 38 o Ddeddf 2010.

(2) Mae adran 171 o Ddeddf 1991(**9**) yn gymwys at ddibenion adran 38 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 171(2)(a) yn cynnwys swyddogaethau o dan adran 38 o Ddeddf 2010; a

(b) bod adran 171(2)(b) wedi ei hepgor.

(3) Mae Atodlen 20 i Ddeddf 1991(**10**) yn gymwys at ddibenion adran 38 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod y cyfeiriadau ym mharagraffau 1 a 2(1)(a) at bwerau a roddwyd gan adrannau 169 i 172 o Ddeddf 1991 yn gyfeiriadau at bwerau a roddwyd gan adran 170 neu 171 o Ddeddf 1991 fel y'u cymhwysir gan yr erthygl hon;

(b) bod y geiriau "the premises in question are on agricultural land," wedi eu mewnosod ar ôl "where" ym mharagraff 1(2);

(c) bod y cyfeiriad ym mharagraff 1(3) at y pŵer a roddwyd gan adran 170 o Ddeddf 1991 yn gyfeiriad at y pŵer hwnnw fel y'i cymhwysir gan yr erthygl hon;

(ch) bod y cyfeiriad ym mharagraff 2(4) at y pŵer a roddwyd gan adran 171 o Ddeddf 1991 yn gyfeiriad at y pŵer hwnnw fel y'i cymhwysir gan yr erthygl hon;

(**8**) Mae adran 170 wedi ei diwygio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, adran 120 ac Atodlen 22, paragraff 128.

(**9**) Mae adran 171 wedi ei diwygio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, adran 120 ac Atodlen 22, paragraff 128. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny, bellach, yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**10**) Mae Atodlen 20 wedi ei diwygio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, adran 120 ac Atodlen 22, paragraff 128 ac 188, ac O.S. 2009/1307. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny, bellach, yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(d) bod cyfeiriadau at bŵer y mae Atodlen 20 yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at unrhyw bŵer a roddwyd gan adran 170 neu 171 o Ddeddf 1991 fel y'u cymhwysir gan yr erthygl hon, gan gynnwys pŵer sy'n arferadwy yn rhinwedd gwarant o dan Atodlen 20;

(dd) bod paragraff 8(2) wedi ei hepgor; ac

(e) bod i "agricultural land" yr ystyr a roddir iddo yn adran 145 o Ddeddf 1991.

**Cymhwyso'r darpariaethau pŵer mynediad i adran 39 o Ddeddf 2010**

**6.**—(1) Mae adran 170 o Ddeddf 1991 yn gymwys at ddibenion adran 39 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod y geiriau "a local authority" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "the Agency"—

(i) lle y maent yn ymddangos yn adran 170(1); a

(ii) lle y maent yn ymddangos am y tro cyntaf yn adran 170(3);

(b) bod y geiriau "the local authority" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "the Agency"—

(i) lle y maent yn ymddangos yn adran 170(2); a

(ii) lle y maent yn ymddangos am yr eildro yn adran 170(3);

(c) bod y cyfeiriad yn is-adran (4) at unrhyw bŵer a roddwyd gan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau yn adrannau 159, 160, 162(2) a (3) a 163 o Ddeddf 1991 yn gyfeiriad at unrhyw bŵer a roddwyd gan adran 39 o Ddeddf 2010; ac

(ch) bod i "local authority" yr ystyr a roddir iddo yn adran 39(6) o Ddeddf 2010.

(2) Mae adran 171 o Ddeddf 1991 yn gymwys at ddibenion adran 39 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod y geiriau "a local authority" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "the Agency" lle y maent yn ymddangos yn adran 171(1);

(b) bod y geiriau "the local authority" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "the Agency" lle y maent yn ymddangos yn adran 171(2)(a) a (3)(c);

(c) bod y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 171(2)(a) yn cynnwys swyddogaethau o dan adran 39 o Ddeddf 2010;

(ch) bod adran 171(2)(b) wedi ei hepgor; a

(d) bod i "local authority" yr ystyr a roddir iddo yn adran 39(6) o Ddeddf 2010.

(3) Mae Atodlen 20 i Ddeddf 1991 yn gymwys at ddibenion adran 39 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod y cyfeiriadau ym mharagraffau 1 a 2(1)(a) at bwerau a roddwyd o dan adrannau 169 i 172 o Ddeddf 1991 yn gyfeiriadau at bwerau a roddwyd gan adran 170 neu 171 o Ddeddf 1991 fel y'u cymhwysir gan yr erthygl hon;

(b) bod y geiriau "the premises in question are on agricultural land," wedi eu mewnosod ar ôl "where" ym mharagraff 1(2);

(c) bod y cyfeiriad ym mharagraff 1(3) at y pŵer a roddwyd gan adran 170 o Ddeddf 1991 yn gyfeiriad at y pŵer hwnnw fel y'i cymhwysir gan yr erthygl hon;

(ch) bod y cyfeiriad ym mharagraff 2(4) at y pŵer a roddwyd gan adran 171 o Ddeddf 1991 yn gyfeiriad at y pŵer hwnnw fel y'i cymhwysir gan yr erthygl hon;

(d) bod cyfeiriadau at bŵer y mae Atodlen 20 yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at unrhyw bŵer a roddwyd gan adran 170 neu 171 o Ddeddf 1991 fel y'u cymhwysir gan yr erthygl hon, gan gynnwys pŵer sy'n arferadwy yn rhinwedd gwarant o dan Atodlen 20;

(dd) bod y geiriau “a local authority” wedi eu rhoi yn lle “the Agency” ym mharagraffau 6(3)(b) ac 8;

(e) bod paragraff 8(2) wedi ei hepgor;

(f) bod i “agricultural land” yr ystyr a roddir iddo yn adran 145 o Ddeddf 1991; ac

(ff) bod i “local authority” yr ystyr a roddir iddo yn adran 39(6) o Ddeddf 2010.

## Cymhwyso'r darpariaethau iawndal i adran 38 o Ddeddf 2010

**7.** Mae is-baragraffau (1) a (2) o baragraff 5 o Atodlen 21 i Ddeddf 1991(**11**) yn gymwys at ddibenion adran 38 o Ddeddf 2010 fel petai'r cyfeiriadau at y pwerau o dan adran 165(1) i (3) o Ddeddf 1991 yn gyfeiriad at bwerau o dan adran 38 o Ddeddf 2010.

## Cymhwyso'r darpariaethau iawndal i adran 39 o Ddeddf 2010

**8.** Mae is-baragraffau (1) a (2) o baragraff 5 o Atodlen 21 i Ddeddf 1991 yn gymwys at ddibenion adran 39 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod y geiriau “a local authority” wedi eu rhoi yn lle'r geiriau “the Agency” lle y maent yn ymddangos am y tro cyntaf;

(b) bod y geiriau “the local authority” wedi eu rhoi yn lle'r geiriau “the Agency” lle y maent yn ymddangos am yr eildro;

(c) bod y cyfeiriad at bwerau o dan adran 165(1) i (3) o Ddeddf 1991 yn gyfeiriad at bwerau o dan adran 39 o Ddeddf 2010; ac

(ch) bod i “local authority” yr ystyr a roddir iddo yn adran 39(6) o Ddeddf 2010.

*John Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

22 Tachwedd 2011

(**11**) Mae is-baragraffau (1) a (2) o baragraff 5 o Atodlen 21 wedi eu diwygio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, adran 120 ac Atodlen 22, paragraff 128, ac O.S. 2009/1307. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny, bellach, yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â phwerau Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol mewn perthynas â gwaith llifogydd ac erydu arfordirol atodol o dan adrannau 38 a 39, yn eu tro, o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29). Mae'r adrannau hynny yn galluogi Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol i wneud gwaith penodol er budd gwarchod natur, cadwraeth treftadaeth ddiwylliannol neu fwynhad pobl o'r amgylchedd neu dreftadaeth ddiwylliannol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cymhwyso'r darpariaethau perthnasol o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (p.57) sy'n ymwneud â phrynu gorfodol, pwerau mynediad a iawndal i arfer y pwerau o dan adrannau 38 a 39.

Mae hefyd yn addasu cymhwysiad y darpariaethau hynny at ddibenion adran 38 fel—

(a) na all Asiantaeth yr Amgylchedd arfer y pwerau prynu gorfodol ond at y diben o alluogi'r Deyrnas Unedig i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Gyfarwyddebau UE penodol a enwyd;

(b) bod rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol roi 7 niwrnod o rybudd cyn arfer eu pwerau mynediad mewn perthynas â thir amaethyddol (ac eithrio mewn argyfwng).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Mae copi ar gael gan: Is-adran Mannau Cynaliadwy, Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ